
2021-2022


Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA)

## CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER CYMRU







All cover images: © **Natural Resources Wales**
This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43000 ISBN digidol: 978-1-80195-580-5

# Coronafeirws (COVID-19)

Lle roedd y gwaith o gyflawni rhai camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu 2021-2022 wedi cael ei gyfyngu gan bandemig COVID-19, mae'r manylion wedi cael eu nodi yn y camau gweithredu sy'n parhau yn y Cynllun Gweithredu hwn.

# Cyflwyniad

Dyma'r pedwerydd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAau) yng Nghymru. Fe'i cynhyrchwyd gan Grŵp Llywio Rheoli MPAau Cymru. Mae'n nodi'r camau gweithredu â blaenoriaeth ar lefel rhwydwaith i wella'r gwaith o reoli MPAau ac, felly, gwella neu gynnal cyflwr y rhwydwaith o MPAau yng Nghymru. Mae'n ategu gweithgarwch rheoli a gyflawnir ar lefel leol ac a nodwyd o fewn cynlluniau gweithredu safleoedd unigol lle maent yn bodoli.

Mae Cynllun Gweithredu 2021-2022 yn mynd law yn llaw â **Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith MPAau ar gyfer Cymru 2018-2023** (Fframwaith) ac mae'r ddau gyda'i gilydd yn rhoi cyfeiriad i Awdurdodau Rheoli wrth iddynt roi eu gweledigaeth tymor hir ar gyfer rheoli'r rhwydwaith ar waith:

***Bydd rhwydwaith MPAau Cymru o dan reolaeth effeithiol a chyson sy'n diogelu bywyd gwyllt a chynefinoedd morol safleoedd, gan arwain at gyflawni neu gynnal cyflwr ffafriol nodweddion safleoedd. Mae'r broses o reoli'r rhwydwaith yn cynnal ecosystemau morol cadarn sydd yn eu tro yn helpu i sicrhau moroedd glân, diogel, iach, cynaliadwy, cynhyrchiol a bioamrywiol yng Nghymru. Bydd MPAau yn cael eu gwerthfawrogi am y buddion hirdymor y maen nhw'n eu darparu i bobl Cymru, trwy amddiffyn eu treftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog.***

Caiff y Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer 2021-2022 ei gyhoeddi ar y cyd ag Adroddiad Blynyddol ar Reoli Rhwydwaith MPAau Cymru 2020-2021 sy'n rhoi'r diweddaraf am hynt y camau y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt yng Nghynllun Gweithredu llynedd (2020-2021).

# Y Camau Gweithredu

Mae pob cam gweithredu yng Nghynllun Gweithredu 2021-2022 yn cyfrannu at o leiaf un o bum egwyddor rheoli MPAau y Fframwaith, er mwyn llywio'r gwaith o wireddu'r weledigaeth a chyflawni'r amcanion ar gyfer rheoli'r rhwydwaith:

**MP1 Cynllunio Strategol:** Dylai'r gwaith o reoli gael ei lywio gan brosesau cynllunio strategol ar lefel adrannol yn ogystal â lefel Cymru gyfan. Mae'n cefnogi'r defnydd cynaliadwy o'r rhwydwaith MPAau mewn ffyrdd sy'n gwarchod ac yn gwella cyflwr, yn cefnogi gwydnwch ecosystemau morol, yn cefnogi llesiant ac sy'n sicrhau y rheolir adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**MP2 Prosesau rheoleiddio, caniatáu datblygiad ac asesu:** Dylid cynnal prosesau rheoleiddio, penderfyniadau cydsynio a phrosesau asesu mewn ffordd gyson a chymesur ar draws y rhwydwaith, a dylent ystyried a chefnogi cynnal neu wella (lle bo hynny'n bosibl/briodol) cyflwr safleoedd a nodweddion perthnasol ar draws y rhwydwaith.

**MP3 Cyngor a chanllawiau rheoli:** Dylai gwneud penderfyniadau a gweithgareddau rheoli gael eu cefnogi gan gyngor a chanllawiau clir a chyson ar MPAau gan gynnwys eu hamcanion cadwraeth.

**MP4 Deall cyflwr, pwysau a bygythiadau i safleoedd a'u nodweddion i lywio'r dull o reoli:** dylai'r rheolwyr gael eu llywio, a chyfeirio'n gyson at, asesiadau ffurfiol a chofnodi iechyd a chyflwr nodweddion, safleoedd a'r rhwydwaith cyfan. Caiff yr asesu a'r cofnodi a'u llywio gan raglen fonitro wedi'i blaenoriaethu sy'n gwella dealltwriaeth o gyflyrau, newidiadau ac effaith ar draws agweddau ar y rhwydwaith ble y gwelir y pwysau mwyaf.

**MP5 Rheoli ehangach:** dylai gweithrediadau rheoli ar safleoedd unigol a niferus gael eu blaenoriaethu i sicrhau cyflawni gweithgareddau sydd â'r potensial mwyaf o wella dull o reoli y prif bwysau, ac amodau ar draws y rhwydwaith. Gall gweithgareddau rheoli gynnal neu wella cyflwr nodweddion, nodi a datrys problemau lleol penodol a chodi ymwybyddiaeth am MPAau trwy ymyriadau wedi'u targedau a gwaith ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd.

Cynigiwyd camau gweithredu i'r Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli MPAau i'w hasesu'n erbyn set o feini prawf blaenoriaeth y cytunwyd arnynt, a nodir yn yr Atodiad. Mae'r Grŵp Llywio wedi cytuno ar restr o 25 o gamau gweithredu â blaenoriaeth, gan gynnwys tri newydd a nodwyd ac a ychwanegwyd eleni. Mae'r camau gweithredu'n adlewyrchu hyd a lled y gweithgarwch rheoli ar gyfer MPAau sy'n digwydd bob dydd, yn ogystal ag ymyriadau a phrosiectau penodol. Mae llawer o'r prosiectau a'r ymyriadau hyn yn cwmpasu'r rhwydwaith cyfan ond mae rhai yn brosiectau peilot ar safleoedd unigol.

Fel ag yng Nghynllun Gweithredu 2020-2021, mae llawer o'r camau'n ymchwiliadol eu natur a rhagwelir iddynt arwain at ddatblygu ymyriadau actif addas, a roddir ger bron ar gyfer eu sgrinio a'u blaenoriaethu ar gyfer fersiynau o'r Cynllun Gweithredu yn y dyfodol.

# Mynegai


| Camau Gweithredu â Blaenoriaeth | Tudalen |
|---|---|
| Integreiddio rheolaeth gynaliadwy ar y rhwydwaith MPAau â phroses y Datganiadau Ardal | 6 |
| Datblygu dull o gynnal asesiadau gwell a chyfnodol o gyflwr MPAau | 6 |
| Datblygu ymhellach raglen monitro forol yn seiliedig ar risgiau ar draws y rhwydwaith o MPAau | 7 |
| Rhaglen Gwella Cyflwr y Rhwydwaith MPAau | 7 |
| Datblygu canllawiau cyson a chymesur er mwyn gella cyngor ar waith achos a chefnogi'r gwaith o roi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith | 8 |
| Datblygu methodolegau i asesu bregusrwydd nodweddion y rhwydwaith gan ddefnyddio data o system monitro cychod o'r tir (iVMS) | 8 |
| Rheoli MPAau trwy brosesau asesu a chydsynio rheoleiddiol | 9 |
| Gwella mapiau o ehangder a dosbarthiad cynefinoedd morol Atodiad I | 9 |
| Sut i reoli carbon glas yn y Rhwydwaith MPAau **CAM GWEITHREDU NEWYDD** | 10 |
| Cynnal cysylltiadau rhwng Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith o MPAau a chamau gweithredu a gytunwyd yn lleol, pan fo'r rhain yn bodoli, a chefnogi'r gwaith o edrych am gyfleoedd ariannu | 10 |
| Casglu abwyd yn y Rhwydwaith MPA yng Nghymru: Opsiynau ar gyfer casglu tystiolaeth a rheoli **CAM GWEITHREDU NEWYDD** | 11 |
| Adolygiad strategol o bori ar nodweddion morfeydd heli yn MPAau Cymru a datblygu camau gweithredu i wella eu cyflwr **CAM GWEITHREDU NEWYDD** | 11 |
| Mynd i'r afael ag effeithiau gwasgfa arfordirol ar MPAau | 12 |
| Cyflawni'r camau gweithredu â blaenoriaeth o fewn y Cynllun Gweithredu Sbwriel Morol lle maent yn fuddiol i'r rhwydwaith o MPAau yng Nghymru | 13 |
| Prosiect Sbwriel Cymunedol | 14 |
| Prosiect Adfer Wystrys Brodorol Cymru | 15 |
| Yr Ap Cod Morol Dwyieithog ar gyfer Cymru **CAM GWEITHREDU NEWYDD** | 15 |
| Lleihau aflonyddu ar famaliaid ac adar morol | 16 |
| Datblygu cynllun bioddiogelwch sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) morol | 16 |
| Datblygu Strategaeth Gwarchod Dolffiniaid a Llamidyddion ledled y DU | 17 |
| Cynllun gweithredu i leihau nifer yr adar sy'n cael eu dal yn ddamweiniol fel sgil-ddalfa yn nyfroedd y DU | 17 |
| Asesu a, lle y bo angen, rheoli effaith gweithgareddau pysgota masnachol ar MPAau | 18 |
| Gweithredu dull seiliedig ar risg ar gyfer gorfodi ym mhysgodfeydd | 18 |
| Prosiect Shoresearch Cenedlaethol **CAM GWEITHREDU NEWYDD** | 19 |
| Rhaglen Fioddiogelwch Ynys Adar Môr y DU **CAM GWEITHREDU NEWYDD** | 20 |
| **Atodiad:** Canllawiau blaenoriaethu ar gyfer camau sgrinio a sgorio i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig | 21 |

# Cam gweithredu

## Integreiddio'r gwaith o reoli'r Rhwydwaith MPAau mewn modd gynaliadwy â phroses y Datganiadau Ardal

### Disgrifiad

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli MPAau wedi'i ymgorffori yn y Datganiadau Ardal Forol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020. Bydd y datganiadau ardal yn canolbwyntio ar amrediad o gamau gweithredu sy'n berthnasol i reoli MPAau ledled Cymru. Mae llawer o'r camau gweithredu perthnasol eisoes wedi cael eu hymgorffori yn y cynllun gweithredu hwn.

**Dros y flwyddyn nesaf canolbwyntir ar weithio gydag amrediad eang o randdeiliaid i gytuno ar gamau gweithredu ar y cyd y gallwn eu cymryd er mwyn cyflawni'r camau yn y themâu a nodwyd:**

- Atebion seiliedig ar natur ac ymaddasu yn y parth arfordirol;
- Cefnogi'r gwaith o weithredu cynlluniau morol;
- Adeiladu cydnerthedd yr amgylchedd morol.

### Canlyniadau

Integreiddio prosesau cynllunio a rheoli morol a rhoi cymorth ychwanegol er mwyn rheoli'r Rhwydwaith MPAau.

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Yn parhau | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Llywodraeth Cymru |

## Datblygu dull o gynnal asesiadau gwell a chyfnodol o gyflwr MPAau

### Disgrifiad

Ariennir y prosiect gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a bydd yn datblygu dangosyddion a phrosesau er mwyn gwella'r ffordd yr adroddir am gyflwr y nodweddion a ddiogelir o fewn y Rhwydwaith MPAau yng Nghymru.

Prif weithgareddau'r prosiect yw:

- Datblygu cyfres o ddangosyddion adrodd, fel y gellir asesu ac adrodd am gyflwr nodweddion MPAau yn fwy effeithlon;
- Datblygu canllawiau y cytunwyd arnynt sy'n disgrifio sut bydd asesiadau o gyflwr safleoedd yn cael eu cynnal yn ein holl MPAau;
- Treialu'r fethodoleg newydd ar safle(oedd)/nodwedd(ion) MPAau yng Nghymru.

### Canlyniadau

Prif ganlyniad y prosiect fydd y gallu i gynnal asesiadau prydlon o gyflwr safleoedd, gan arwain at ddealltwriaeth well o gyflwr ein MPAau yng Nghymru. Bydd hyn yn llywio'r gwaith rheoli'n well ac yn rhoi ffocws i flaenoriaethau.

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mehefin 2022 | Cyfoeth Naturiol Cymru |

Yn ôl i'r Mynegai

## Datblygu ymhellach raglen monitro forol yn seiliedig ar risgiau ar draws y Rhwydwaith MPAau

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Mae opsiynau ar gyfer rhaglen monitro bioamrywiaeth forol, wedi'i blaenoriaethu ac yn seiliedig ar risg, wedi cael eu darparu ar lefel y wlad ac ar lefel y DU, ac mae cyfleoedd i archwilio'r rhain ymhellach yn cael eu hystyried.<br><br>Wrth i'r rhaglen newydd gael ei gweithredu, bydd y rhaglen fonitro bresennol yn parhau i gael ei chyflawni. | Sail dystiolaeth well i lywio asesiadau o gyflwr MPAau a mesurau rheoli priodol yn y dyfodol.<br><br>Yn y tymor hir bydd y gwaith hwn yn sicrhau y gellir deall yn well effeithiolrwydd mesurau rheoli. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Yn parhau | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br>Llywodraeth Cymru |

## Rhaglen Gwella Cyflwr y Rhwydwaith MPAau

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Mae'r rhaglen waith hon yn archwilio camau rheoli posibl, lle y bo angen, er mwyn mynd i'r afael â phwysau a bygythiadau a nodwyd mewn perthynas â'r Rhwydwaith MPAau. Eleni, bydd y rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar weithio gyda swyddogion rheoli lleol i ddatblygu prosiectau o gamau gweithredu presennol a newydd, ac i archwilio ffynonellau cyllid ar gyfer cyflawni yn y dyfodol. Bydd prosiectau'n blaenoriaethu camau gweithredu a all sicrhau gwelliannau i gyflwr MPAau neu wella dealltwriaeth o bwysau a bygythiadau allweddol. | Bydd canolbwyntio ymdrechion ar heriau rheoli blaenoriaethau yn parhau i helpu i ddatblygu a chyflawni'r camau hynny (1) sydd â'r potensial mwyaf i wella (neu gynnal) cyflwr nodweddion ar draws y Rhwydwaith, neu (2) a fydd yn gwella dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gweithgareddau a chyflwr nodweddion. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Yn parhau | Cyfoeth Naturiol Cymru |

Yn ôl i'r Mynegai

## Datblygu canllawiau cyson a chymesur i wella'r cyngor ar waith achos ac i gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Diben y gwaith hwn yw datblygu canllawiau i gefnogi asesiadau cyson a chymesur o effeithiau gweithgareddau a reoleiddir ar nodweddion gwarchodedig MPAau yng Nghymru.<br>Mae canllawiau yn cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith o roi polisïau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith wrth wneud penderfyniadau e.e. trwyddedu morol a chanllawiau sy'n ymwneud â pholisïau penodol. | Bydd canllawiau cyson a chymesur yn sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn helpu i wella diogelwch gwaith rheoli ac yn helpu i gynnal cyflwr nodweddion ein MPAau, a'u gwella lle bo hynny'n briodol. |
| **I'w gyflawni erbyn** | **Awdurdodau Rheoli Allweddol** |
| Yn parhau | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |

## Datblygu methodolegau i asesu lefel y bygythiad i nodweddion rhwydwaith gan ddefnyddio data system monitro cychod y glannau (iVMS)

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Gan ddefnyddio setiau data bach presennol yr iVMS, wedi'u casglu o bell, bydd rhyngweithio nodweddion yn cael ei archwilio i benderfynu a yw data o'r fath yn addas (wedi'i gasglu drwy ddulliau llusgo neu statig) ar gyfer asesu lefel y bygythiad i nodweddion rhwydweithiau. Mae angen gwaith yn y maes hwn cyn cyflwyno systemau iVMS yng Nghymru a dadansoddi data yn y dyfodol. Bydd datblygu'r sail wybodaeth a'r prosesau hyn yn awr yn sicrhau manteision uniongyrchol mewn perthynas â bygythiad pysgota i nodweddion y Rhwydwaith MPAau. | Adroddiad ar fethodolegau dadansoddi data sy'n disgrifio pa nodweddion y byddai'n addas eu defnyddio ar gyfer asesu llwybrau rhyngweithio. Bydd casgliadau'n cynnwys argymhellion a bylchau asesu yn y dyfodol. |
| **I'w gyflawni erbyn** | **Awdurdodau Rheoli Allweddol** |
| Mawrth 2022 | Llywodraeth Cymru |

Yn ôl i'r Mynegai

## Rheoli MPAau drwy brosesau caniatáu ac asesu rheoleiddiol

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod caniatâd rheoleiddiol, prosesau asesu a gweithgareddau sy'n galluogi prosesau penderfynu yn ystyried yr effeithiau posibl ar y Rhwydwaith MPAau ac yn cynnwys mesurau lliniaru priodol lle bo angen. | Gwneud penderfyniadau sy'n lleihau'r effaith ar nodweddion ein Rhwydwaith MPAau. |
| **I'w gyflawni erbyn** | **Awdurdodau Rheoli Allweddol** |
| Yn parhau | Pob Awdurdod Rheoli |

## Gwella mapiau o ehangder a dosbarthiad cynefinoedd morol Atodiad I

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Mae'r gwaith hwn yn darparu tystiolaeth allweddol i ategu'r gwaith o reoli Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) (e.e. cyngor ar waith achos) ac adrodd ar lefel genedlaethol Yn bennaf mae hyn yn cynnwys coladu data gan drydydd partïon (e.e. data aml-belydr Swyddfa Hydrogaffeg y DU) i ddiweddaru mapiau. | Bydd mapiau gwell yn ategu rheoli yn ogystal ag asesu ac adrodd. |
| **I'w gyflawni erbyn** | **Awdurdodau Rheoli Allweddol** |
| Yn parhau (wrth i ddata newydd ddod ar gael) | Cyfoeth Naturiol Cymru |

Yn ôl i'r Mynegai

## Sut i reol carbon glas yn y Rhwydwaith MPAau **CAM GWEITHREDU NEWYDD**

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Datgelodd adroddiad tystiolaeth diweddar y rôl bwysig y mae arfordiroedd a moroedd Cymru yn ei chwarae fel dalfa garbon (carbon glas). Fodd bynnag, nid ydym eto yn deall cyfraniad y Rhwydwaith MPAau at ddal a storio carbon.<br><br>Byddwn yn gwella'r ddealltwriaeth hon drwy:<br>• Cyfrifo faint o garbon sy'n cael ei ddal a'i storio gan gynefinoedd yn y Rhwydwaith MPA.<br>• Paratoi adroddiad dadansoddi opsiynau sy'n cynnwys:<br>– Camau rheoli dichonadwy cyfredol a fydd yn hyrwyddo dal a storio carbon yn MPAau Cymru.<br>– Bylchau mewn tystiolaeth a rhwystrau i gamau rheoli a gweithredu penodol y gellid eu hystyried yn y dyfodol.<br>– Opsiynau ar gyfer llwybrau i reoli cyfleoedd i reoli cyfleoedd ar gyfer carbon glas yn Rhwydwaith MPAau Cymru. | |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mawrth 2022 | Cyfoeth Naturiol Cymru |

## Cynnal cysylltiadau rhwng y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith MPAau a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn lleol, pan fyddant yn bodoli, a chefnogi'r broses o chwilio am gyfleoedd ariannu

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Bydd y cam gweithredu hwn yn amlygu camau gweithredu lleol perthnasol ac yn cysylltu â'r rhain, gan gynnwys camau gweithredu lleol penodol yn y cynllun Gweithredu Blynyddol fel sy'n briodol. | Mae'n caniatáu i'r arferion gorau o wahanol safleoedd y rhwydwaith MPAau gael eu rhannu ac yn annog gwaith ar draws safleoedd, yn ogystal â hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel safle. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mai 2022 | Grwpiau Awdurdod Perthnasol |

## Casglu Abwyd yn y Rhwydwaith MPAau yng Nghymru: Opsiynau ar gyfer tystiolaeth a rheoli **CAM GWEITHREDU NEWYDD**

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Gwyddys bod cloddio a chasglu abwyd yn arwain at nifer o effeithiau ar amrediad o safleoedd ledled y Rhwydwaith MPAau.<br><br>Bydd y prosiect hwn yn defnyddio canlyniadau'r arolwg drôn o fannau lle mae cloddio am abwyd yn peri problemau yng Nghymru (cam gweithredu blaenorol) i ddatblygu opsiynau a phrosiectau rheoli ar lefel safle a fydd yn helpu i reoli'r gweithgaredd hwn yn well a gwella cyflwr y safle.<br><br>Bydd y prosiect hefyd yn helpu i wella'r ffordd mae abwyd yn cael ei reoli yn y Gann. | Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu opsiynau rheoli ar lefel safle mewn mannau yng Nghymru lle mae casglu abwyd yn peri problemau. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mawrth 2022 | Cyfoeth Naturiol Cymru |

## Adolygiad strategol o bori ar nodweddion morfeydd heli yn MPAau Cymru a datblygu camau gweithredu i wella eu cyflwr **CAM GWEITHREDU NEWYDD**

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Bydd y prosiect hwn yn gweithio tuag at gynnig argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â phori ar forfeydd heli, er mwyn gwella a chynnal cyflwr nodweddion morfeydd heli ar draws y Rhwydwaith MPAau. Dyma'r cam cyntaf o sicrhau bod pori'n cael ei reoli mewn modd priodol drwy goladu tystiolaeth a chreu rhestr realistig wedi'i blaenoriaethu o gamau rheoli, y gellid eu rhoi ar waith mewn prosiectau dilynol, gan weithio'n ddelfrydol gyda sefydliadau partner, ffermwyr a rheolwyr tir neu drwyddynt. | **Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:**<br>1. Nodi lle mae angen newid y ffordd mae pori yn cael ei reoli, gan ystyried llystyfiant morfeydd heli a rhywogaethau sy'n dibynnu arno.<br>2. Gwerthuso'r dystiolaeth i nodi meysydd â blaenoriaeth ar gyfer ymyriadau rheoli pori.<br>3. Cynhyrchu rhestr o gamau rheoli penodol ar gyfer rheoli safleoedd MPA sy'n gysylltiedig â phob un o'r meysydd â blaenoriaeth. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mawrth 2022 | Cyfoeth Naturiol Cymru |

Yn ôl i'r Mynegai

## Mynd i'r afael ag effeithiau gwasgu arfordirol ar MPAau

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Bydd y prosiect hwn yn parhau i gasglu tystiolaeth i ddeall effeithiau gwasgu arfordirol ar ein rhwydwaith MPAau, gan gynnwys parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau a phrosiectau ledled y DU.<br><br>Bydd gwaith yn parhau yng Nghymru i ddatblygu prosiectau creu cynefinoedd, er mwyn ddarparu cynefin arfordirol cydadferol ar gyfer cynefinoedd y rhagwelir y byddant yn cael eu colli yn sgil gwaith sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol. | Defnyddio gwybodaeth newydd am effeithiau gwasgu arfordirol er mwyn helpu i gynnal cyfanrwydd y rhwydwaith.<br><br>Mesurau cydadfer ar gyfer rhai cynefinoedd arfordirol a gollwyd oherwydd newid yn yr hinsawdd. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Yn parhau | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Llywodraeth Cymru |

Yn ôl i'r Mynegai

## Cymryd y camau gweithredu â blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Morol lle maent yn fuddiol i'r Rhwydwaith MPAau yng Nghymru

### Disgrifiad

Mae Partneriaeth Moroedd Glân Cymru yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Morol ar gyfer Cymru.

Mae'r cynllun tair blynedd presennol wedi'i alinio'n agos â strategaethau tebyg sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â sbwriel ar y tir yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr yn ategu'r gwaith ehangach
o fynd i'r afael â phlastigau, a mentrau gwastraff yng Nghymru, gan ddefnyddio dull 'atal yn y tarddle'.

**Bydd y partneriaeth yn gwneud y canlynol:**

- Adolygu arolygon blynyddol o waith glanhau traethau ledled Cymru.
- Trafod a gwneud cynigion ynghylch sut i fynd i'r afael ag eitemau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol sydd wedi dechrau peri pryder.

**Mae'r Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr yn cael ei gefnogi gan grant gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.**
**Mae bellach wedi cyrraedd ei ail gam ac mae'n cynnwys y ganlynol:**

- Gweithio gydag ysgolion uwchradd i ymchwilio i ymarferoldeb cynnwys sbwriel morol yn eu gwaith Eco-ysgolion.
- Bydd y prosiect hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant twristiaeth i ymchwilio ymarferoldeb cynnig gwobr eco drwy gynllun peilot.

Mae Partneriaeth Moroedd Glân Cymru yn parhau i gefnogi cynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun peilot i ailgylchu offer pysgota ar  ddiwedd ei oes yng Nghymru, sy'n un o'r camau allweddol yn y Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr.

### Canlyniadau

Mae gwella ein dealltwriaeth o fygythiadau sbwriel i'r amgylchedd morol sy'n dechrau peri pryder yn gallu cefnogi mesurau rheoli yn y dyfodol, a allai fod eu hangen i gynnal Rhwydwaith MPAau Cymru.

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Yn parhau | Llywodraeth Cymru<br>Partneriaeth Moroedd Glân Cymru |

Yn ôl i'r Mynegai

## Prosiect Ysbwriel Cymunedol

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Y cynllun gwreiddiol oedd defnyddio'r adolygiad o brosiectau sbwriel cymunedol o Flwyddyn 1 i gyflawni camau gweithredu yng Nghynlluniau Rheoli Safleoedd Morol Ewropeaidd a chamau gweithredu'r Bartneriaeth Moroedd Glân. Oherwydd COVID-19 mae'r prosiect hwn wedi cael addasu i geisio ymchwilio i effaith COVID-19 ar grwpiau casglu sbwriel lleol ac effaith COVID-19 ar faint o sbwriel a'r mathau o sbwriel sy'n cael eu canfod ar gyrion arfordirol y MPAau a ledled y wlad, ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau mewn ymddygiad, er enghraifft, defnyddio rhagor i eitemau un tro fel masgiau.<br><br>**Bydd allbynnau gwaith penodol eleni'n cynnwys:**<br>• Monitro data o'r sesiynau casglu sbwriel.<br>• Syniad o'r canllawiau ar yr arferion gorau ar gyfer grwpiau casglu sbwriel pan fyddant yn gweithredu dan amgylchiadau COVID-19.<br>• Cipolwg ar effaith COVID-19 ar sbwriel morol a llygredd.<br>• Cipolwg ar effaith COVID-19 ar ymddygiad unigolyn wrth ddefnyddio eitemau un tro a thaflu sbwriel.<br>• Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gwaith yn y dyfodol gan gynnwys treialu defnyddio dronau, deallusrwydd artiffisial a chamerâu aml-sbectrol i fonitro sbwriel a mathau o sbwriel. | Codi ymwybyddiaeth o ysbwriel morol a chymorth ar gyfer prosiectau i leihau'r defnydd o blastig. Lleihau faint o blastig a mathau eraill o ysbwriel sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd morol yn lleol. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mawrth 2022 | Grŵp Awdurdodau Perthnasol Pen Llŷn a'r Sarnau |

Yn ôl i'r Mynegai

## Prosiect Adfer Wystrys Brodorol Cymru

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Ffocws Prosiect Adfer Wystrys Brodorol Cymru, a ariennir gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yw sefydlu a monitro cyfres o leiniau adfer wystrys brodorol yn Nyfrfforddd Aberdaugleddau. Bydd allbynnau'r ymarfer hwn yn ymdrin â chwestiynau ynghylch ymarferoldeb adfer wystrys brodorol yng Nghymru a sut i wneud hynny – yn benodol mewn perthynas â gallu wystrys i oroesi, recriwtio, dwysedd stociau, effeithiau'r clefyd wystrys *Bonamia* a'r rhywogaethau anfrodorol *Crepidula fornicata*, yn ogystal â monitro effeithiau cadarnhaol posibl, gan gynnwys gwella cynefinoedd a chynyddu cyfansoddiad rhywogaethau cysylltiedig. | Allbynnau allweddol y prosiect fydd Canllawiau ar Adfer Wystrys Brodorol Cymru a Chynllun Gweithredu ar Wystrys Brodorol a fydd yn amlinellu'r dull gweithredu a'r camau nesaf ar gyfer adfer wystrys brodorol yng Nghymru. Y canlyniad allweddol fydd eglurder ynghylch a ellir adfer wystrys brodorol yng Nghymru a gwybodaeth am y ffordd orau o adfer wystrys brodorol yn nyfroedd Cymru. |
| **I'w gyflawni erbyn** | **Awdurdodau Rheoli Allweddol** |
| Mawrth 2023 | Cyfoeth Naturiol Cymru |

## Ap Cod Morol Dwyieithog ar gyfer Cymru **CAM GWEITHREDU NEWYDD**

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu/adeiladu ar Ap Presennol Cod Morol Sir Benfro i greu Ap Cod Morol Dwyieithog i Gymru gyfan. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ardaloedd eraill ledled Cymru.<br><br>**Bydd y prosiect hwn yn ceisio gwneud y canlynol:**<br>• Cynhyrchu un Ap Cod Morol integredig ledled Cymru gyda chodau ymddygiad penodol ar gyfer y gwahanol rhanbarthau.<br>• Cysylltu yn ôl y gofyn â Swyddogion MPAau ac aelodau o Grŵp Moroedd Gwyllt Cymru fel sy'n briodol, i sicrhau bod cynnwys yn cael ei fewnbynnu mewn modd cydgysylltiedig.<br>• Cynnal gweithdai.<br>• Hyfforddiant ar reoli cynnwys.<br>• Lansio a hyrwyddo'r Ap ledled Cymru. | Lledaenu ymwybyddiaeth a newid ymddygiad yn ehangach er mwyn cynnal a gwella cyflwr nodweddion drwy leihau'r risg o aflonyddu ar rywogaethau morol, gan, yn y pen draw, wella cydnerthedd a darparu gwybodaeth addysgol eang a chanllawiau rhagweithiol i:<br><br>1. Arwain at ddealltwriaeth well o fywyd gwyllt morol.<br>– Lleihau'r risg o aflonyddu ar rywogaethau morol drwy nodi lle y gall fod gwrthdaro lleol rhwng anifeiliaid sy'n bridio/bwydo/nythu a darparu canllawiau i annog gweithgareddau cynaliadwy.<br>2. Cynnal cyflwr nodweddion a gwella cydnerthedd y prif rywogaethau targed. |
| **I'w gyflawni erbyn** | **Awdurdodau Rheoli Allweddol** |
| Mawrth 2022 | Fforwm Arfordir Sir Benfro<br>Partneriaeth Cymru sy'n cynnwys MPAau Lleol |

Yn ôl i'r Mynegai

## Lleihau aflonyddu ar famaliaid ac adar morol

### Disgrifiad

**Eleni, bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar dri phrif faes:**

- Sicrhau bod yr holl godau generig ar lefel sirol yn gyson a'u bod yn nodi'r un pellteroedd. Cynhyrchu set safonol o ddeunyddiau atodol i ategu'r codau morol. Bydd hyn yn cynnwys:
  - Canllawiau ar wahanol weithgareddau a allai gael effaith.
  - Taflenni a chanllawiau ar adnabod rhywogaethau i roi rhagor o wybodaeth am y cod morol a pham mae ei angen.
- Adolygu effeithiolrwydd y paneli aflonyddu ar forloi ifanc a ddatblygwyd ym Mlwyddyn 1 y prosiect.

Gweithio gyda Fforwm Arfordir Sir Benfro ar ddatblygu'r Ap Cod Morol.

### Canlyniadau

Mae codau morol ar safleoedd allweddol ar gyfer rhywogaethau symudol iawn yn addas i'r diben.

Cyfrannu at gadw'r Morlo Llwyd *Halichoerus grypus* mewn cyflwr ffafriol.

Mae defnyddwyr y môr yn ymwybodol o achosion posibl o aflonyddu ledled Cymru, a sut y gall hyn effeithio ar rywogaethau sydd dan fygythiad.

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mawrth 2022 | Grŵp Awdurdodau Perthnasol Pen Llŷn a'r Sarnau |

## Datblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol y Môr

### Disgrifiad

Bydd y prosiect peilot hwn, a ariennir gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, yn darparu cynllun bioddiogelwch ar gyfer ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Bydd hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau bioddiogelwch ar draws y Rhwydwaith MPAau.

**Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy wneud y canlynol:**

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ymdrin â'r prif ffyrdd mae rhywogaethau estron goresgynnol y môr yn cael eu cyflwyno ac yn lledaenu, gan weithiau gyda physgotwyr i nodi sut y gall y rhywogaethau hyn effeithio ar bysgodfeydd;
- Datblygu technegau i asesu a rhagweld effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol ar gynefinoedd a rhywogaethau;
- Adeiladu capasiti i ddiogelu bioamrywiaeth forol a lleihau'r risgiau i nodweddion gwarchodedig.

### Canlyniadau

Diogelu nodweddion y safle, drwy reoli'r prif ffyrdd mae rhywogaethau estron goresgynnol y môr yn cael eu cyflwyno ac yn lledaenu ar lefel safle drwy ddefnyddio bioddiogelwch da.

Bydd y gwersi a ddysgwyd yn llywio'r gwaith o gynllunio bioddiogelwch ar draws y Rhwydwaith MPAau.

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Medi 2022 | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Grŵp Awdurdodau Perthnasol Pen Llŷn a'r Sarnau |

Yn ôl i'r Mynegai

## Datblygu Strategaeth ar gyfer Gwarchod Dolffiniaid a Llamidyddion Harbwr Iedled y DU

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Nod y gwaith hwn yw datblygu dull gweithredu cyson Iedled y DU ar gyfer rheoli pwysau a bygythiadau sy'n wynebu naw o'r rhywogaethau mwyaf cyffredino o ddolffin, llamhidydd a morfil bach mwyaf cyffredin yn nyfroedd y DU y tu mewn a'r tu allan i MPAau. | Bydd y strategaeth, yn ogystal â'r rhwymedigaethau cyfreithiol presennol, yn llywio gwaith rheoli wedi'i dargedu er mwyn gwella dealltwriaeth o'r rhywogaethau hyn a'u statws cadwraeth yn nyfroedd y DU. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mawrth 2022 | Llywodraeth Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |

## Cynllun gweithredu i leihau nifer adar y môr sy'n cael eu dal yn ddamweiniol yn nyfroedd y DU

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| **Nod y gwaith eleni yw:**<br>• Cyhoeddi'r 'Cynllun Gweithredu'.<br>• Sicrhau ansawdd y pecynnau cymorth a'u cyflwyno i ddefnyddwyr terfynol.<br>• Bydd dadansoddiad o fylchau yn y broses fonitro'n cael ei gynnal.<br>• Bydd adroddiadau ar ddulliau lliniaru a 'mannau problemus' yn cael eu cwblhau.<br><br>Yn rhyngwladol, mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi bod yn helpu partïon contractio OSPAR i ddiffinio/cwmpasu dangosydd posibl ar gyfer adar môr sy'n cael eu dal yn ddamweiniol, er mwyn paratoi ar gyfer Adroddiad Statws Ansawdd OSPAR 2023. | Bydd gwella'r sail dystiolaeth a'r dulliau rheoli er mwyn mynd i'r afael ag adar y môr sy'n cael eu dal yn ddamweiniol yn cyfrannu at y gwaith o reoli MPAau, gan gynnwys y safleoedd hynny ar gyfer adar y môr. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mawrth 2022 | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br>Llywodraeth Cymru |

Yn ôl i'r Mynegai

## Asesu a, lle y bo angen, rheoli effaith gweithgareddau pysgota masnachol ar MPAau

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Nod y prosiect yw sicrhau bod y gwaith o reoli pysgodfeydd masnachol o fewn Safleoedd Morol Ewropeaidd yn diogelu yn ddigon nodweddion dynodedig, yn unol â'r **Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau**.<br><br>Mae'r prosiect yn **asesu'r rhyngweithio** rhwng rhywogaethau a chynefinoedd a gwahanol fathau o offer pysgodfeydd. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu defnyddio i nodi a fydd angen mesurau rheoli pysgodfeydd yn y dyfodol.<br><br>**Eleni, bydd gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys:**<br>• 9 mamal yn erbyn rhwydi sefydlog;<br>• 40 cynefin yn erbyn offer symudol a lusgir;<br>• 20 asesiad pellach y cytunir arnynt gan y grŵp llywio. | Sail dystiolaeth well ar y pwysau/bygythiadau a ddaw o'r holl weithgareddau pysgota masnachol perthnasol er mwyn nodi a oes angen camau rheoli.<br><br>Archwilio a gweithredu ymyriadau rheoli, lle bo angen, er mwyn gwella neu gynnal cyflwr nodweddion ar draws y rhwydwaith. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mawrth 2022 | Llywodraeth Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |

## Gweithredu dull seiliedig ar risg ar gyfer gorfodi pysgodfeydd

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Mae'r gwaith hwn, sy'n cynnwys gorfodi ac erlyn o fewn parth Cymru a'i MPAau, yn gweithredu dull o orfodi morol sy'n seiliedig ar risg ac yn cael ei arwain gan wybodaeth, gan ddefnyddio gwelliannau technolegol i gynnal ffocws ar weithgareddau pysgodfeydd risg uchel.<br><br>Mae'n gweithredu fel rhwystr cryf i helpu i atal gweithgareddau pysgota anghyfreithlon a chyfrannu at warchod nodweddion MPAau a chyflwr cyffredinol y rhwydwaith. | Bydd y dull hwn yn gwella'r sail dystiolaeth ac yn helpu i reoli safleoedd er mwyn diogelu nodweddion dynodedig mewn MPAau. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Yn parhau | Llywodraeth Cymru |

Yn ôl i'r Mynegai

## Prosiect Shoresearch Cenedlaethol
## **CAM GWEITHREDU NEWYDD**

### Disgrifiad

Bydd y cynllun peilot blwyddyn hwn yn datblygu prosiect gwyddoniaeth dinasyddion ar gyfer casglu data a fydd yn helpu gyda'r gwaith o fonitro rhywogaethau estron goresgynnol yng Nghymru a nodweddion y Rhwydwaith MPAau.

**Yn y cynllun peilot:**

- Bydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn datblygu pecyn hyfforddi penodol ar gyfer gwirfoddolwyr i ddatblygu eu sgiliau cynnal arolygon ac adnabod rhywogaethau.
- Datblygu cysylltiadau â sefydliadau a phrosiectau eraill fel Prosiect Bioddiogelwch Pen Llŷn a'r Sarnau.
- Gwneud yn siŵr bod mecanweithiau llif data ar waith sy'n effeithiol ac effeithlon.
- Dysgu oddi wrth waith cydweithredu Shoresearch yn y gorffennol rhwng Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Lloegr gyda Natural England.

Y nod yw ffurfio cynnyrch gwyddoniaeth dinasyddion Shoresearch pwrpasol sy'n gweithio i ddiwallu anghenion Cymru ac sydd o fudd i'r ffordd mae'r Rhwydwaith MPAau yn cael ei reoli drwy wella'r broses o gasglu data.

### Canlyniadau

Bydd y cynllun peilot yn gwella'r ddealltwriaeth o fygythiadau a phwysau. Bydd yn datblygu gan y bydd monitro rheolaidd yn ehangu'r sail wybodaeth ac felly'n galluogi rheoli mewn modd mwy gwybodus.

Bydd y cydweithio â CNC yn galluogi'r cynllun peilot i ganolbwyntio ar rywogaethau estron goresgynnol a nodweddion penodol i wella'r gwaith o fonitro cyflwr a datblygu mentrau rheoli ehangach.

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mawrth 2022 | Ymddiriedolaeth Natur Cymru<br>Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |

## Rhaglen Fioddiogelwch Ynys Adar Môr y DU
## **CAM GWEITHREDU NEWYDD**

| Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|
| Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r RSPB yn arwain y gwaith o gyflawni'r prosiect **Biosecurity for LIFE (2018-2023)** drwy ddatblygu a rhoi ar waith fesurau bioddiogelwch effeithiol i ddiogelu 42 AGA Ynys Adar Môr y DU rhag mamaliaid ysglyfaethus sydd wedi cael eu cyflwyno. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn mae'r RSPB a'i bartneriaid yn datblygu'r cynllun AfterLIFE, sy'n rhan o'r prosiect Biosecurity for LIFE, i sicrhau gwaddol y prosiect drwy gynnal yr ymwybyddiaeth a godwyd a'r mesurau bioddiogelwch effeithiol, a thrwy barhau â'r broses werthuso ac adolygu fel y gellir gwella ac ehangu'r mesurau hyn ar draws holl ynysoedd alltraeth y DU lle mae bioamrywiaeth bwysig.<br><br>Parhau i gefnogi a gweithio gyda Gweithgor Rhaglen Bioddiogelwch Ynys Adar Môr y DU er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig ar gyfer diogelu AGAau Ynys Adar y Môr rhag mamaliaid ysglyfaethus sydd wedi cael eu cyflwyno. | Diogelu yn well adar môr Cymru sy'n bridio ar ynysoedd sy'n Ardaloedd Gwarchod Arbennig drwy fesurau bioddiogelwch effeithiol (atal, canfod yn gynnar ac ymateb yn gyflym) sy'n cael eu cynnal yn y tymor hir.<br><br>Ymrwymiad i'r arferion bioddiogelwch gorau ar gyfer ynysoedd a gweithredu mesurau bioddiogelwch drwy bartneriaethau effeithiol rhwng cyrff anllywodraethol, cynghorau lleol a chymunedau, a'r sefydliadau cadwraeth natur statudol. |

| I'w gyflawni erbyn | Awdurdodau Rheoli Allweddol |
|---|---|
| Mawrth 2023 | RSPB<br>Llywodraeth Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |

Yn ôl i'r Mynegai

# Atodiad

## Canllawiau blaenoriaethu ar gyfer camau sgrinio a sgorio i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA)

Yn ôl i'r Mynegai

## Cyflwyniad

Mae Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli MPAau (y Grŵp Llywio) wedi datblygu Fframwaith ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o MPAau er mwyn cynorthwyo awdurdodau rheoli Cymru i reoli'r rhwydwaith o MPAau yng Nghymru yn well. Ochr yn ochr â'r Fframwaith hwn ceir y Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig (y cynllun gweithredu) sy'n cael ei ddiweddaru yn flynyddol. Cyhoeddir adroddiad blynyddol arno.

## Pwrpas

Bwriad y canllawiau hyn yw egluro'r meini prawf ar gyfer sgorio camau gweithredu posibl allai gael eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Bydd y canllawiau hyn yn helpu'r rheini fydd yn gyfrifol am y camau gweithredu i benderfynu a yw'r camau gweithredu hynny'n addas i'w cynnwys neu eu helpu i'w haddasu a'u gwneud yn fwy addas ar gyfer eu cynnwys. Er na fydd y rhai fydd o bosibl yn gweithredu yn rhan o'r broses sgorio, mae'n ddefnyddiol deall sut y mae'r system sgorio yn gweithio.

## Crynodeb o'r broses

Mae Tabl 1 yn crynhoi'r pum maen prawf ar gyfer blaenoriaethu. Cewch fwy o wybodaeth am sut i'w defnyddio yn yr adrannau sy'n dilyn. Dim ond camau sy'n cyrraedd y sgôr trothwy (fel a nodir yn Nhabl 1) ar gyfer pob maen prawf fydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu.

**Tabl 1: Sgoriau trothwy ac uchafswm y sgoriau ar gyfer pob maen prawf**

| | Maen Prawf | Sgôr trothwy |
|---|---|---|
| **1** | Beth yw maint gofodol y cam gweithredu? | **2** |
| **2** | Beth yw gallu'r cam gweithredu i sicrhau gwelliannau, neu i wella ein dealltwriaeth o bwysau/bygythiadau neu eu rheolaeth? | **2** |
| **3** | A yw'r cam gweithredu'n gyson ag egwyddorion rheoli'r MPAau? | **2*** |
| **4** | Pa mor ddichonadwy yw'r cam gweithredu? | **2** |
| **5** | A fyddai gweithredu'r camau yn rhoi gwerth am arian? | **Ddim yn berthnasol** |

* Ar gyfer o leiaf un o'r egwyddorion rheoli

Bydd y canllawiau manylach canlynol yn helpu y rhai sy'n gyfrifol am y camau gweithredu i ddeall y meini prawf a sut y gellid eu defnyddio wrth flaenoriaethu camau i'w cynnwys yn y cynllun gweithredu.

Yn ôl i'r Mynegai

## Maen Prawf 1. Beth yw maint gofodol y cam gweithredu?

Prif ystyriaeth y maen prawf hwn yw pa rannau o'r rhwydwaith y mae'r cam gweithredu'n effeithio arnyn nhw. Bydd y sgôr a roddir yn seiliedig ar faint effaith y cam ar rwydwaith yr MPAau. Mae hwn yn gynllun gweithredu ar gyfer y rhwydwaith cyfan felly mwya'n y byd o'r rhwydwaith yr effeithir arno neu fwya'n y byd nifer y nodweddion (neu gyfran y nodwedd ar draws y rhwydwaith) yr effeithir arnynt, mwya'n y byd y sgôr. Gellir rhoi sgôr trothwy (2) i'r cam os yw'n brosiect arddangos ar y lefel leol y gellid ei roi ar waith ar draws y rhwydwaith.

**Elfennau i'w hystyried:** Mae'n bwysig bod yn glir pa safleoedd ac/neu nodweddion fydd y camau gweithredu o fudd iddynt. Os yw'r cam yn brosiect arddangos, mae'n bwysig nodi'r safleoedd eraill allai fanteisio arno yn y tymor hir ac os yn bosibl, sut y gellid rhoi'r prosiect ar waith ar draws y rhwydwaith.

Defnyddio'r tabl isod i ddeall sut y bydd eich camau gweithredu posibl yn cael eu sgorio.

**Maen Prawf 2: Tabl Sgorio**

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| Mae y cam gweithredu ar un safle yn unig ac nid oes goblygiadau ehangach iddo ar draws y rhwydwaith*. | **0** |
| Mae'r cam gweithredu ar gyfer nifer fach o safleoedd neu gyfran fach o'r rhwydwaith. | **1** |
| **Mae'r cam gweithredu ar gyfer:**<br>• nifer o safleoedd neu<br>• gyfran fawr o'r rhwydwaith o MPAau neu<br>• gyfran fawr o nodwedd ar draws y rhwydwaith.<br>Gellir dyfarnu sgôr o ddau hefyd os mai prosiect arddangos* yw'r cam gweithredu gyda posibilrwydd cryf o gael ei gyflwyno ar draws y rhwydwaith wedi cam peilot lleol. | **2<br>(sgôr trothwy)** |
| Mae'r cam gweithredu ar gyfer y rhwydwaith (e.e. nodwedd gyfan a/neu ar draws pwysau). | **3** |

* Byddai angen i brosiect arddangos fynd i'r afael â mater sy'n peri pryder ar draws y rhwydwaith ond sy'n addas i'w gynnal ar un safle i brofi'r dull.

# Byddai gofyn i brosiect arddangos ymdrin â mater sy'n berthnasol i'r rhwydwaith cyfan ond byddai'n briodol ei gynnal ar un safle i brofi a yw'n ateb y gofyn.

## Maen Prawf 2. Beth yw gallu'r cam gweithredu i sicrhau gwelliannau, neu i wella ein dealltwriaeth o bwysau/bygythiadau neu eu rheolaeth?

**Mae'r maen prawf hwn wedi ei rannu yn ddwy ran. Bydd unrhyw weithredu posibl ond yn cael ei asesu yn erbyn un o'r meini prawf hyn (sef naill ai 2a neu 2b):**

- Os oes gennych brosiect fydd yn mynd i'r afael ag un neu fwy o'r pwysau neu'r bygythiadau sydd i un neu fwy o nodweddion ein rhwydwaith MPAau, yna bydd angen ichi asesu eich prosiect o dan faen prawf 2a.
- Ond os yw'r gweithredu'n gysylltiedig â'r angen i ddeall pwysau neu fygythiad yn well, yna caiff ei asesu yn ôl 3b. Bydd maen prawf 3b hefyd yn cael ei ddefnyddio os yw'r camau posibl yn golygu bod angen gwell dealltwriaeth neu dreialu dull penodol o reoli.

I grynhoi, os oes gweithredu uniongyrchol 2a yw'r maen prawf mwyaf addas. Os yw'n brosiect ymchwilio, 2b yw'r maen prawf mwyaf addas. Peidiwch â chysylltu'r cam gweithredu â'r ddau, hyd yn oed os yw'n cynnwys elfennau o'r ddau.

**Gellir defnyddio'r ddau faen prawf ar gyfer pwysau a bygythiadau, a chaiff rhain eu diffinio isod:**

- **Pwysau:** rhywbeth sydd ar hyn o bryd yn cael effaith andwyol ar un neu fwy o nodweddion.
- **Bygythiad:** rhywbeth sydd ddim yn bwysau ar hyn o bryd ond sy'n cael ei ystyried yn debygol o fod yn bwysau yn y dyfodol agos os na fydd camau'n cael eu cymryd.

## Maen prawf 2a. A fydd y camau gweithredu yn sicrhau gwelliannau i, neu yn cynnal, cyflwr nodwedd?

Mae'r maen prawf hwn yn berthnasol i gamau gweithredu a fydd yn arwain at wella neu gynnal cyflwr nodweddion yn y rhwydwaith MPAau, fel arfer trwy reoli pwysau/bygythiadau i'r nodwedd. Gallai'r cam gweithredu fod yn gysylltiedig hefyd â rheoli gweithgareddau sy'n effeithio ar gyflwr y nodwedd neu ag adfer y nodwedd.

**Elfennau i'w hystyried:** Byddwch yn glir pa bwysau y mae'r cam gweithredu yn ei dargedu a pha nodweddion y mae'r pwysau yn effeithio arnyn nhw a sut. Esboniwch yn union sut y bydd y cam gweithredu'n lliniaru'r pwysau a dargedir. Byddai'n dda bod yn glir hefyd pwy fydd yn gyfrifol a beth fydd ei rôl.

**Enghreifftiau o gamau gweithredu y byddai angen eu hystyried o dan 2a:**

- Gweithredu i ddatblygu strategaeth ar draws y rhwydwaith i reoli pwysau ar nodwedd e.e Strategaeth Gwarchod Dolffiniaid a Llamidyddion y DU.
- Gweithredu i leihau'r mewnbwn maethynnau sy'n effeithio ar nodwedd arfordirol fel peilot.
- Gweithredu i leihau effaith aflonyddwch gan gychod (e.e. cod ymddygiad) ar nodwedd gyfan.

Defnyddiwch y tabl isod i ddeall yn well sut y caiff eich camau posibl eu sgorio.

**Maen Prawf 2a: Tabl Sgorio**

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| Nid yw'r cam gweithredu wedi'i dargedu at bwysau neu fygythiad sy'n gysylltiedig â chyflwr nodwedd. | 0 |
| **Bygythiad*:** Bydd y gweithredu yn rheoli un neu ragor o'r bygythiadau sy'n cael eu hamau o gael effaith ar gyflwr nodweddion rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig. | 1 |
| **Pwysau:** Bydd y gweithredu yn rheoli un neu fwy o'r pwysau y gwyddwn sy'n cael effaith ar nodweddion y rhwydwaith MPAau.<br>**Bygythiad:** Bydd y gweithredu yn rheoli un neu fwy o'r bygythiadau a allai gael effaith ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith MPAau. | 2 |
| **Pwysau:** Bydd y gweithredu yn rheoli un neu fwy o'r pwysau y gwyddwn sy'n cael effaith sylweddol ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith MPAau, gan ddefnyddio dull sydd wedi'i brofi.<br>**Bygythiad:** Bydd y camau gweithredu yn rheoli un neu fwy o'r bygythiadau a allai gael effaith sylweddol ar nodweddion y rhwydwaith MPAau gan ddefnyddio dull o weithio sydd wedi'i brofi. | 3 |

* Nid oes sgôr o 1 ar gyfer pwysau, gan y dylid gwybod eisoes am y pwysau er mwyn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y cynllun gweithredu.

Yn ôl i'r Mynegai

## Maen Prawf 2b. Allai'r camau gweithredu sicrhau ein bod yn deall yn well y pwysau/bygythiadau neu y dull o'u rheoli?

Mae'r maen prawf hwn yn gysylltiedig â chamau fydd yn arwain at wella ein dealltwriaeth o'r pwysau neu'r bygythiadau i'r rhwydwaith MPAau neu wella ein dealltwriaeth o'r mesurau rheoli gwahanol allai gael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r pwysau neu'r bygythiadau hyn.

**Elfennau i'w hystyried:** Mae'n bwysig bod yn glir pa fwlch yn ein dealltwriaeth y mae'r cam gweithredu yn ceisio ei lenwi. Ystyried pam y mae'n fwlch a sut y bydd y camau posibl yn ei lenwi. Os ydych yn ystyried dull newydd o reoli (naill ai i'w harchwilio neu eu treialu) byddwch yn glir ynghylch yn union beth yw'r mesur rheoli a'r canlyniadau fydd yn cael eu cyflawni ac os yn bosibl ble y mae'r dull o weithio wedi ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn mannau eraill. Defnyddiwch y tabl isod i ddeall sut y bydd eich camau gweithredu posibl yn cael eu sgorio.

**Rhowch enghreifftiau o gamau a fyddai angen eu hystyried o dan 2b:**

- Mae archwiliad i effaith y wasgfa arfordirol ar y rhwydwaith MPAau yn cynnwys;
- Ymchwiliad i effaith sbwriel môr ar nodweddion MPA; neu
- Treialu dull rheoli newydd o balu am abwyd ar safle (os yw hefyd yn rhywbeth y gellid ei gyflwyno i safleoedd eraill).

**Maen Prawf 2b: Tabl Sgorio**

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| **Ni fydd y cam gweithredu'n gwella ein dealltwriaeth o:**<br>a. pwysau neu fygythiadau; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw. | 0 |
| **Bygythiad:**<br>**Bydd y camau gweithredu yn gwella'n rhannol ein dealltwriaeth o:**<br>a. un o'r bygythiadau a allai effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r bygythiad hwn. | 1 |
| **Pwysau:**<br>**Bydd y cam gweithredu yn cynyddu ein dealltwriaeth o:**<br>a. un neu fwy o'r pwysau a sut maent yn effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r pwysau hynny.<br>**Bygythiad:**<br>**Bydd y cam gweithredu yn gwella ein dealltwriaeth o:**<br>a. un neu fwy o'r bygythiadau a allai effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r bygythiadau hynny. | **2**<br>**(sgôr trothwy)** |
| **Pwysau:**<br>**Bydd y cam gweithredu yn cynyddu yn sylweddol ein dealltwriaeth o:**<br>a. un neu fwy o'r pwysau a sut maent yn effeithio ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r pwysau hynny.<br>**Bygythiad:**<br>**Bydd y cam gweithredu yn gwella'n sylweddol ein dealltwriaeth o:**<br>a. un neu ragor o'r bygythiadau a allai effeithio'n sylweddol ar gyflwr nodweddion y rhwydwaith o MPAau; neu<br>b. y mesurau rheoli sydd eu hangen i reoli'r bygythiadau hynny. | 3 |

Yn ôl i'r Mynegai

## Maen Prawf 3: A yw'r cam gweithredu yn gyson ag Egwyddorion Rheoli MPAau?

Mae'r maen prawf cyntaf hwn yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae'r cam gweithredu'n bodloni un neu fwy o bum egwyddor rheoli'r rhwydwaith MPAau. Bydd yn bosibl i'r camau gael eu sgorio yn erbyn unrhyw rai neu bob un o egwyddorion rheoli'r MPA ym Mlwch 1. Efallai na fydd un cam yn berthnasol i bob un o'r egwyddorion rheoli ac nid oes angen ceisio gwneud i gam gweithredu ffitio'r holl feini prawf. Rhoddir cyngor i'r rheini fydd yn gyfrifol am y cam gweithredu o dan bob egwyddor rheoli mewn italics.

Os bydd cam gweithredu'n cael sgôr negyddol yn erbyn unrhyw egwyddor rheoli, ni ddylech fynd ag e ymhellach trwy'r broses flaenoriaethau tan y gellir unioni'r broblem wreiddiol. Defnyddiwch y tabl isod i ddeall sut y bydd eich camau gweithredu posibl yn cael eu sgorio.

**Maen Prawf 3: Tabl Sgorio**

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| Mae anghysondebau rhwng y cam gweithredu a'r egwyddor reoli. | **-3** |
| Nid yw'r cam gweithredu'n berthnasol i'r egwyddor reoli. | **0** |
| Mae'r cam gweithredu'n cyd-fynd yn rhannol â'r egwyddor reoli. | **1** |
| Mae'r cam gweithredu'n cyd-fynd â'r egwyddor reoli. | **2*** |
| Mae'r cam gweithredu'n cyd-fynd â'r egwyddor reoli a bydd hefyd yn cyflwyno newidiadau cadarnhaol i ffyrdd o weithio. | **3** |

* Sgôr trothwy – mae angen sgôr o 2 yn erbyn o leiaf un egwyddor rheoli

## Blwch 1: Egwyddorion ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig

**ER1 Cynllunio Strategol:** Dylai'r gwaith o reoli gael ei lywio gan brosesau cynllunio strategol ar lefel adrannol yn ogystal â lefel Cymru gyfan. Mae'n cefnogi'r defnydd cynaliadwy o'r rhwydwaith o MPAau mewn ffyrdd sy'n gwarchod ac yn gwella, ac yn cyfrannu at ecosystemau morol gwydn, llesiant a'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

*A oes gan y camau gweithredu posibl agwedd gynllunio amlwg ledled Cymru sy'n cyfrannu at ecosystemau morol cadarn, llesiant a sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli yn gynaliadwy?*

**ER2 Rheoleiddio, datblygu prosesau cydsynio ac asesu:** Mae prosesau rheoleiddio a phenderfyniadau cydsynio yn cael eu darparu yn gyson ac yn gytbwys ar draws y rhwydwaith, ac yn ystyried yn broactif gynnal neu wella (ble yn bosibl/briodol) gyflwr y safleoedd a'r nodweddion perthnasol ar draws y rhwydwaith.

*A yw'r cam gweithredu posibl yn gysylltiedig â'r rheoliad, datblygu prosesau cydsynio neu asesu ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru?*

**ER3 Cyngor ac arweiniad ar reoli:** Mae gweithrediadau penderfynu a rheoli yn cael cyngor ac arweiniad clir a chyson ar MPAau gan gynnwys eu hamcanion cadwraeth.

*A yw'r camau gweithredu posibl yn gysylltiedig â chynhyrchu canllawiau i wella'r dull o reoli ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig?*

**ER4 Deall cyflwr, pwysau a bygythiadau ar safleoedd a'u nodweddion i lywio'r dull o reoli:** Caiff y dull o reoli ei lywio gan asesiadau ffurfiol ac adrodd ar gyflwr nodweddion, safleoedd a'r rhwydwaith a'r pwysau cysylltiedig. Caiff asesiadau ac adroddiadau eu llywio gan raglen dystiolaeth wedi'i blaenoriaethu (gan gynnwys monitro) sy'n gwella ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng pwysau a bygythiadau a chyflwr.

*A yw'r camau gweithredu posibl yn gwella ein dealltwriaeth o'r pwysau a/neu'r bygythiadau ar ein MPAau?*

**MP5 Rheoli ehangach:** Mae gweithgareddau rheoli ar draws y rhwydwaith yn blaenoriaethu'r rhai hynny sydd fwyaf tebygol o wella cyflwr a diogelwch y dull o reoli. Eir i'r afael â heriau rheoli cyffredin yn gyfunol ar draws y rhwydwaith.

*A fydd y camau gweithredu posibl yn gwella'r dull o reoli ac felly gyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru?*

Yn ôl i'r Mynegai

## Maen Prawf 4: Beth yw dichonoldeb y gweithredu?

Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â gallu'r perchennog gweithredu posibl i gyflawni'r weithred. Mae'n bwysig o dan y maen prawf hwn i ystyried sut yn union y bydd y camau'n cael eu cymryd ac a yw'r dulliau a gynigiwyd wedi'u defnyddio yn llwyddiannus mewn mannau eraill.

Elfennau i'w hystyried: Mae'n bwysig ystyried dichonoldeb technegol eich prosiect gan gynnwys gallu ymarferol, logistaidd a thechnegol (gan gynnwys sgiliau ac arbenigedd) sydd eu hangen i ymgymryd â'r gweithredu. Ystyried priodoldeb y fethodoleg ar gyfer y safle neu'r cyd-destun.

Defnyddiwch y tabl isod i ddeall sut y bydd eich camau gweithredu posibl yn cael eu sgorio.

**Maen Prawf 4: Tabl Sgorio**

| Esboniad | Sgôr |
|---|---|
| Nid yw'r weithred yn ymarferol yn dechnegol, hyd yn oed os oedd adnoddau ar gael. | 0 |
| Nid yw dichonoldeb technegol y gweithredu wedi'i brofi ar hyn o bryd. | 1 |
| Nid oes unrhyw broblemau arwyddocaol o ran dichonoldeb/priodoldeb technegol. | 2 |
| Profwyd dichonoldeb technegol. | 3 |

## Maen Prawf 5. Sut mae gweithredu'r weithred yn cynrychioli gwerth am arian?

Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â gwerth am arian y weithred, nid yw'r ymateb yn cael ei sgorio ond mae angen i chi ystyried yn eich ateb pa mor gymesur yw'r gost i faint y prosiect a'r manteision y bydd yn eu cyflawni. Er nad oes sgorio sy'n gysylltiedig â'r maen prawf hwn mae'n dal yn bwysig bod yn glir sut y datblygwyd cost y prosiect a budd Canlyniadau y prosiect i'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

**Elfennau i'w hystyried:** Mae'n bwysig ystyried manteision eich prosiect mewn perthynas â chost y prosiect. Canolbwyntio ar Ganlyniadau'r prosiect. Dylech gynnwys y costau uniongyrchol yn ogystal ag adnoddau eraill sy'n angenrheidiol i gyflawni'r weithred a Chanlyniadau disgwyliedig y prosiect sy'n gysylltiedig â gwelliannau mewn cyflwr neu ddealltwriaeth o nodweddion y rhwydwaith.